Drafft Cofnodion nos Iau 25ain o Ebrill,2024

Draft Minutes – Thursday the 25th of April, 2024

**YN BRESENNOL**: Silyn Roberts (Cadeirydd) Meleri Richards, Gill Hearne, Gareth Ioan a Matthew Vaux

**PRESENT**:. Silyn Roberts (Chair) Meleri Richards, Gill Hearne, Gareth Ioan and Matthew Vaux

(7.30 y.h. – 8.40 y.h.)

(7.30p.m. – 8.40 p.m.)

124 **Ymddiheuriadau**

124 **Apologies**

125 **Datgelu Buddiannau Personol/Buddiannau sy'n Rhagfarnu**

125 **Disclosures of Personal / Prejudicial Interests**

126 **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 14eg o Fawrth.**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a chynhaliwyd ar y 14eg o Fawrth yn gofnod cywir.

126 To confirm the minutes of the meeting held on 14th of March

The minutes of the meeting held on 14th of March were confirmed as a true record

127 **Materion yn codi**

Cynllun Gwylio Cyflymder Cymunedol- yn sgil cyhoeddiad diweddar Ken Skates, cytunwyd i anfon llythyr iddo yn nodi pryderon y Cyngor Cymuned yn Pentre'r Bryn a Maenygroes. Mi fydd y Cynghorydd Silyn Roberts yn ysgrifennu ymateb ar rhan y Cyngor Cymuned.

118.01 A240067 - Plot 27 Heol Y Cwm, Cross Inn, Llandysul, Ceredigion, SA44 6BB

Wedi cael ei wrthod gan yr Adran Cynllunio

119.02 Cross Inn in Bloom

Mae'r Clerc wedi derbyn dyfynbris o £120 y plannwr gan aelod o Cross Inn yn ei blodau. Mae'r Cyngor Cymuned yn cefnogi gosod planwyr ger yr arwyddion i'r pentref ond roedd angen mwy o wybodaeth am faint ac ati. Bydd y Cynghorydd Gareth Ioan yn cysylltu â Cross Inn yn ei blodau i gael mwy o wybodaeth ac adborth i'r Cyngor.

120.05 Toiledau Cei Bach

Mae'r Cynghorydd Vaux a'r Clerc wedi derbyn gwybodaeth gan Ywain ap Dylan o Barc Carafanau Wern Mill sydd ar hyn o bryd yn glanhau'r toiledau yng Nghei Bach. Byddai'n hoffi cymryd prydles y toiledau gan y Cyngor Sir a rhoi arwyddion ar yr adeilad. Mae'r Cyngor Cymuned yn cefnogi'r cynnig cyn belled â bod y cyfleusterau'n parhau i fod yn rhad ac am ddim ac ar gyfer defnydd pawb. Clerc i gysylltu â'r adran ystadau i gadarnhau cefnogaeth y Cyngor Cymuned.

120.08 Arosfan Pentre'r Bryn

Mae'r Cynghorydd Silyn Roberts wedi derbyn ymateb gan Rhodri Llwyd, y Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer priffyrdd yn datgan y byddai'r Cyngor Cymuned yn gallu gwneud y gwaith/talu am y gwaith. Byddai angen cael cadarnhad o bwy sy'n berchen ar y tir gan nad yw'r Cyngor Sir yn siŵr pwy sy'n berchen arno.

127 **Matters arising**

Community Speed watch - following Ken Skates' recent announcement, it was agreed to send a letter stating the concerns of the Community Council in Pentre'r Bryn and Maenygroes. Councillor Silyn Roberts will write a response on behalf of the Community Council.

118.01 A240067 - Plot 27 Heol Y Cwm, Cross Inn, Llandysul, Ceredigion, SA44 6BB

This has been refused by the Planning Department.

119.02 Cross Inn in Bloom

Clerk has received a quote of £120 per planter from a member of Cross Inn in Bloom. The Community Council are supportive of placing planters by the signs to the village but required more information regarding size etc. Cllr Gareth Ioan will contact Cross Inn in Bloom to get more information and feedback to the Council.

120.05 Cei Bach Toilets

Both Cllr Vaux and the Clerk has been sent information by Ywain Ap Dylan from Wern Mill Caravan Park who currently cleans the toilets in Cei Bach. He would like to take over the lease of the toilets from the County Council and put signage on the building. The Community Council are supportive of the proposal as long as the facilities remain free of charge and for the use of everyone. Clerk to contact the estates department to confirm the Community Council's support.

120.08 Pentre'r Bryn Stop

Cllr Silyn Roberts has received a response from Rhodri Llwyd the Corporate Lead Officer for highways stating that the Community Council would be able to do the work /pay for the work. Confirmation of who owns the land would need to be sought as the County Council aren't sure who owns it.

128 **Adroddiad Cynghorydd Sir**

Er gwybodaeth mae gwaith ailwynebu wedi'i gwblhau ar y maes parcio yng nghoedwig Llanina. Mae'r Cynghorydd Vaux yn ansicr pwy sydd wedi cwblhau'r gwaith p'un a yw'n Gyngor Sir Ceredigion neu'n Dŵr Cymru. Derbyniwyd nifer o sylwadau cadarnhaol ar ôl cwblhau'r gwaith.

128 **County Councillor's Report**

For information resurfacing work has been completed on the car park in Llanina woods. Cllr Vaux is unsure who has completed the work whether it is Ceredigion County Council or Welsh Water. Several positive comments have been received following completion of the work.

129 **Cyllid**

Balans Agoriadol - £8,773.42
**Cytunwyd i dalu'r canlynol;**
129.01 Ffioedd Archwilio 2020/21 - £370.00
129.02 Aelodath Un Llais Cymru 24/25 - £198.00

129.03 Cyflog Clerc Ebrill - £203.36
129.04 HMRC Ebrill - £50.60
129.05 Cross Inn, in Bloom - £180.00
129.06 Hyfforddiant Cynllunio - £87.50
129.07 Iori Evans - £100.00

**Balans wrth cau - £7,583.96**

129 **Finance**

Opening Balance - £8,773.42
**It was agreed to pay the following;**
129.01 Audit Fees 2020/21 - £370.00
129.02 One Voice Wales Membership 24/25 - £198.00
129.03 Clerk Salary April - £203.36
129.04 HMRC April - £50.60
129.05 Cross Inn in Bloom - £180.00
129.06 Planning Training - £87.50
129.07 Iori Evans - £100.00

Closing Balance - £7,583.96

130 **Ceisiadau Cynllunio**
130.01 A240178 - 4 Pencnwc Isaf, Cross Inn, Llandysul, Ceredigion, SA44 6NT

Dim gwrthwynebiad neu sylwadau ar y cais.

130.02 A240222 - Ty Cwm, New Quay, Ceredigion, SA45 9TU

Dyma sylwadau'r Cyngor Cymuned ar y cais uchod;

Nid yw'r Cyngor Cymuned yn erbyn datblygiadau modern, ond dyw'r datblygiad yma ddim yn gweddu gyda chymeriad yr ardal. Nodwn ein pryderon o ran maint yr estyniad newydd i gymharu â'r adeilad gwreiddiol.

130 **Planning Applications**
130.01 A240178 - 4 Pencnwc Isaf, Cross Inn, Llandysul, Ceredigion, SA44 6NT

No objection or comment on this application.

130.02 A240222 - Ty Cwm, New Quay, Ceredigion, SA45 9TU

Here are the Community Council's comments on the above application;

The Community Council is not against modern developments, but this development doesn't fit with the character of the area. We note our concerns regarding the size of the new extension when comparing it with the original building.

131 **Ceisiadau am gymorth ariannol**

Dim ceisiadau

131 **Request for financial assistance**

No requests

132 **Gohebiaeth**
132.01 Cyfrifon 23/24

Adroddwyd bod cyfrifon 23/24 wedi'u cadarnhau gan yr archwilydd mewnol ac na chodwyd unrhyw faterion. Cytunwyd i dderbyn y cyfrifon a'r DCB fel y cyflwynwyd.

132.02 Arolwg o'r trefniadau cymunedol ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion

Cytunwyd a'r sylwadau wnaeth y Cynghorydd Ioan cyflwyno i'r Cynghorywr ymlaen llaw o'r cyfarfod heno. Mi fydd y Clerc yn cyflwyno'r sylwadau i'r Comisiwn Ffiniau.

132 **Correspondence**
132.01 Accounts 23/24

It was reported that the 23/24 accounts had been confirmed by the internal auditor and no issues had been raised. It was agreed to accept the accounts and the AGS as presented.

132.02 Review of Community arrangements of the County of Ceredigion

The Council agreed to the comments made by Councillor Ioan advance of this evening's meeting. The Clerk will make the representations to the Boundary Commission.

132.03 Maes Chwarae Bro Hafan – cofrestri’r tir

Esboniodd y Cynghorydd Meleri Richards a'r Clerc wrth y Cynghorwyr bod y Cyngor Sir fel rhan o'r brydles newydd a ddarparwyd gan y Cyngor Sir. Rhaid i'r Cyngor Cymuned gofrestru'r tir yn enw'r Cyngor Cymuned. Bydd y Clerc yn cysylltu ag Alun Evans, Caerwedros i ofyn am gyngor.

132.04 Notis Statudol Ysgol Gynradd Cei Newydd

Cytunwyd i gefnogi'r hysbysiad statudol diweddar a gafwyd. Bydd y Cynghorydd Silyn Roberts yn ysgrifennu ymateb ar ran y Cyngor Cymuned a bydd y Clerc yn ei gyflwyno i'r Cyngor Sir.

132.05 Adroddiad Blynyddol 23/24

Diolch i’r Cynghorydd Silyn Roberts sydd wedi ysgrifennu’r adroddiad blynyddol ar gyfer 23/24. Cytunwyd bod yr adroddiad yn gywir a chytunwyd ar flaenoriaethau ar gyfer 24/25 hefyd.

132.06 Gweithgor y 4 Llan

Rhoddodd y Cynghorydd Gareth Ioan drosolwg o'r cyfarfod diweddar a gynhaliwyd yn Neuadd Caerwedros. Cytunodd y Cyngor Cymuned i gefnogi gwaith y grŵp a bydd y Cynghorydd Silyn Roberts yn ysgrifennu llythyr o gefnogaeth ar ran y Cyngor Cymuned.

133 **Materion i adrodd / digwyddiadau**

134 **Materion i’w drafod ar agenda cyfarfod nesaf**

135 **Trefniadau’r Cyfarfod Nesaf**

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Iau 14eg o Fai yn Neuadd Caerwedros / Zoom am 7.30yh.

132.03 Bro Hafan Play Area land – registration

Cllr Meleri Richards and the Clerk explained to Councillors that as part of the new lease that was provided by the County Council. The Community Council must register the land in the Community Council’s name. The Clerk will contact Alun Evans, Caerwedros to seek advice.

132.04 New Quay Primary School Statutory notice

It was agreed to support the recent statutory notice received. Cllr Silyn Roberts will write a response on behalf of the Community Council and the Clerk will submit it to the County Council.

132.05 Annual Report 23/24

Thank you to Councillor Silyn Roberts who has written the annual report for 23/24. It was agreed that the report was correct and the priorities for 24/25 were also agreed.

132.06 4 Llan Working Group

Councillor Gareth Ioan gave an overview of the recent meeting held at Caerwedros Hall. The Community Council agreed to support the work of the group and Cllr Silyn Roberts will write a letter of support on behalf of the Community Council.

133 **Matters to report /events**

134 **Matters to discuss on next month’s agenda**

135 **Arrangements for next meeting**

The next meeting will be held on Thursday 14th of May at Caerwedros Hall / Zoom at 7.30pm.